Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Llandudno Junction Playgroup**

**Ysgol Awel Y Mynydd**
**Sarn Mynach**
**Cyffordd Llandudno**
**LL31 9RT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Llandudno Junction Playgroup

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Llandudno Junction Playgroup |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn dda. Maent yn dangos eu bod yn gyfarwydd â'r drefn feunyddiol ac yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn dda ac mae'r plant yn llawn cymhelliant ac yn ymddiddori yn y gweithgareddau maent yn cymryd rhan ynddynt. Maent yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth.

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau sy'n hyrwyddo iechyd a diogelwch y plant. Maent yn deall polisi ymddygiad y lleoliad ac yn gweithredu strategaethau cadarnhaol i reoli ymddygiad y plant. Mae’r staff yn wybodus ac yn diwallu anghenion unigol y plant yn dda. Maent yn hyrwyddo'r Gymraeg yn briodol ac yn gwneud defnydd da o wasanaethau cymorth i gefnogi plant a allai fod ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan arweinwyr fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r lleoliad mewn cyflwr da ac wedi'i addurno'n dda ac yn ddeiniadol. Defnyddir adnoddau a ddewiswyd yn ofalus i hybu chwilfrydedd plant gyda digonedd o eitemau cartref naturiol, bywyd go iawn, darnau wedi’u hailgylchu a darnau rhydd i arbrofi â nhw. Mae'r teganau a'r offer mewn cyflwr ardderchog ac yn lân.

Mae'r arweinwyr yn fedrus ac yn gweithio'n galed. Mae ganddynt weledigaeth a rennir ac maent yn dilyn y canllawiau arferion gorau. Maent yn fyfyriol ac yn awyddus i ysgogi gwelliant. Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio cadarn ac wedi datblygu partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni, yr ysgol a’r awdurdod lleol.

**Llesiant** **Da**

Mae'r plant yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn dda. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau a chaiff eu barn eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn symud o gwmpas yn rhydd, gan ddewis ble a beth maen nhw eisiau chwarae ag ef. Maent yn dewis pryd yr hoffent fwyta ac yfed, a gwrandewir arnynt os byddant yn dweud wrth staff eu bod am wneud gweithgareddau penodol gan gynnwys canu caneuon, darllen straeon neu ddal y mochyn cwta anwes.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gyfarwydd â threfn arferol y lleoliad sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt. Er enghraifft, maent yn gwybod eu bod yn golchi eu dwylo cyn cinio ac yn gwybod eu bod yn gwisgo eu cotiau i fynd allan. Mae'r plant yn mwynhau chwarae gyda'r staff ac mae ganddynt rwymau cadarnhaol o anwyldeb. Maent yn closio am fwythau ac mae eu hwynebau'n goleuo pan fydd y staff yn ymuno yn eu gemau. Mae hyn yn helpu i ddatblygu eu hyder a'u hunan-barch ac yn golygu bod y plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson dda. Mae'r plant yn gwenu ar y staff ac yn awyddus i'w cynnwys yn eu chwarae. Mae'r plant yn dysgu cydweithredu'n dda ar gyfer eu hoedran a'u cyfnod datblygu ac yn dysgu rhannu teganau. Er enghraifft, yn ystod amser tacluso, mae rhai o'r plant yn helpu eu ffrindiau i gario teganau os byddant yn sylwi eu bod yn cael trafferth. Mae’r plant yn gwrtais ac wrth gael eu hatgoffa'n ysgafn, mae’r rhan fwyaf yn dysgu gwrando a gofalu am deganau ac adnoddau’r lleoliad yn dda.

Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn llawn cymhelliant ac yn ymddiddori yn eu chwarae. Maent yn sgwrsio'n llawen wrth archwilio eu hamgylchedd yn ddiogel ac arwain eu chwarae eu hunain. Maeny yn gyffrous pan ddaw eu tro i ddal y mochyn cwta anwes a chanolbwyntio wrth iddynt fwytho'i ffwr yn ofalus. Maent yn dangos balchder yn y darluniau maent wedi'u creu yn annibynnol ac yn gyffrous i ddweud wrthym pa arwyr maent wedi'u darlunio. Maent yn cael pleser mawr yn cychwyn gemau eu hunain fel ail-greu’r gofrestr yn cael ei chymryd ac esgus bod yn ‘Aunty Lynn’.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus, datrys problemau, datblygu'n greadigol ac arbrofi. Er enghraifft, mae'r plant yn dewis cael llaeth neu ddŵr cyn helpu eu hunain i'w byrbryd eu hunain. Maent yn ceisio rhoi menyn ar eu byrbryd, rhoi bwyd diangen yn y bin a mynd â'r llestri i'r sinc.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol a llesiant. Er enghraifft, cynigir byrbrydau a diodydd cytbwys yn unol â chanllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru. Mae'r staff yn annog y plant i frwsio eu dannedd yn y lleoliad ac maent yn cynnig cyfleoedd yn ddyddiol i'r plant chwarae yn yr awyr agored. Amserlen y lleoliad sy'n arwain y staff wrth gynnig cyfleoedd chwarae awyr agored yn hytrach yn caniatáu i'r plant lifo'n rhydd o'r tu mewn i'r tu allan. Dilynir arferion glanhau effeithiol a hylendid da megis glanhau byrddau a lloriau ar ôl eu defnyddio a chedwir at arferion golchi dwylo rheolaidd. Caiff cofnodion damweiniau a digwyddiadau eu cwblhau'n gywir a'u rhannu gyda'r rhieni. Cedwir cofnod o bresenoldeb y plant a'r staff, ac mae'r staff yn llenwi'r cofnodion hyn yn gywir. Mae'r staff i gyd yn sylweddoli bod diogelu yn rhan bwysig o'u gwaith ac maent yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Gwyddant y camau priodol i'w cymryd pan gânt eu holi am wahanol sefyllfaoedd diogelu, ond mae rhai staff yn llai hyderus, gyda'u gwybodaeth, nag eraill.

Mae'r staff yn deall polisi rheoli ymddygiad y lleoliad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn canmol y plant am fod yn garedig, am wrando'n dda ac am gwblhau tasgau. Mae'r staff yn fodelau rôl da ac yn dangos caredigrwydd a pharch tuag at y plant. Os bydd y plant yn gwrthod dilyn cyfarwyddiadau, mae'r staff yn defnyddio dull tawel, sensitif ac yn rhoi esboniadau clir, sy'n arwain at y plant yn cydymffurfio.

Mae'r staff yn fedrus, yn brofiadol ac yn diwallu anghenion unigol y plant yn dda. Maent yn arsylwi'r plant yn ofalus ac yn ymateb i'r hyn sydd ei eisiau neu ei angen arnynt. Er enghraifft, mae'r staff yn mynd i mewn i gael haenau ychwanegol os byddant yn sylwi bod y plant yn oer y tu allan. Maent yn cynllunio amrywiaeth da o brofiadau chwarae a dysgu i'r plant ac yn datblygu eu dealltwriaeth o 'gynllunio yn y foment'. Er enghraifft, datblygant fedrau gwneud marciau'r plant trwy annog y plant i ysgrifennu mewn hambyrddau o flawd. Maent yn annog y plant i ganolbwyntio a chydsymud da rhwng y dwylo a'r llygaid trwy eu cefnogi i daro hoelion i mewn i bren gan ddefnyddio morthwyl, ac maent yn annog y plant i wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas trwy fynd â nhw ar wibdeithiau rheolaidd. Mae'r staff yn arsylwi'r plant yn rheolaidd, yn cofnodi eu camau nesaf mewn dysgu ac yn adolygu eu cynnydd yn rheolaidd. Mae'r staff yn cael cymorth gan athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol i gyflwyno dogfen newydd er mwyn i'r staff asesu plant ac olrhain datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae rhai o'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn briodol trwy ddefnyddio geiriau, rhifau a chaneuon cyfarwydd yn rheolaidd gyda'r plant. Mae arweinwyr yn cydnabod pan y gallai fod gan y plant anghenion ychwanegol, yn cymryd camau priodol ac yn gwneud defnydd da o wasanaethau cymorth.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r plant. Mae'r lleoliad yn ddiogel gyda drysau ar glo a gofynnir i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Yn yr awyr agored, mae'r maes chwarae yn gaeedig â ffensys perimedr. Mae'r arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg priodol sy'n cael eu hadolygu'n gyson a'u rhannu gyda'r holl staff. Fodd bynnag, nid yw'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â ffensys perimedr isel y lleoliad wedi'u cynnwys yn yr asesiadau risg. Caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd a chofnodir yr holl wybodaeth berthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod y plant a'r staff yn gwybod sut i wagio'r adeilad os bydd argyfwng. Mae'r arweinwyr yn trefnu arferion glanhau cyson yn effeithiol, sy'n adlewyrchu arferion hylendid cadarn.

Mae'r staff yn gofalu am y plant mewn amgylchedd deniadol sydd wedi'i addurno'n dda. Mae lliwiau meddal, naturiol gyda phlanhigion gwyrdd wedi'u gosod yn strategol, yn creu ymdeimlad o gynhesrwydd a thawelwch. Mae deunyddiau pren wedi'u hailgylchu a'u hadfer wedi'u newid yn feddylgar yn ddodrefn fel byrddau a silffoedd. Mae'r lleoliad yn darparu digon o le i blant ac mae wedi'i oleuo'n dda, gydag adnoddau wedi'u trefnu'n ofalus iawn fel bod y plant yn gallu helpu eu hunain ac arwain eu chwarae eu hunain. Mae gwaith y plant wedi'u harddangos yn ddeniadol gan gynnwys gwaith celf, arddangosfa cysylltiadau cymunedol a gweithgareddau mathemateg plant. Mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn ac yn annog y plant i deimlo'n falch. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys adnoddau da, yn daclus ac yn drefnus. Mae’r staff yn sicrhau bod yr ardaloedd darparu yn ennyn diddordeb y plant gydag adnoddau fel cegin chwarae rôl gyda seddi boncyff coeden bren lle gall y plant ddatblygu eu dychymyg. Mae'r hambwrdd tywod a'r peiriannau cloddio yn helpu i ddatblygu cysyniadau mathemategol cynnar trwy wagio a llenwi'r tryciau yn ogystal â datblygu sgiliau cydsymud llaw-llygad a chyfathrebu. Mae twba bath wedi'i ailgylchu wedi'i droi yn wely blodau gyda'r staff yn galluogi'r plant i deimlo eu bod wedi'u grymuso wrth iddynt gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am ddysgu am blanhigion a gofalu amdanynt.

Mae'r arweinwyr wedi dylunio amgylchedd cadarnhaol gyda theganau ac offer mewn cyflwr rhagorol. Dan do, caiff teganau eu trefnu a'u storio'n daclus. Defnyddir dodrefn o faint addas ym mhob rhan o'r lleoliad megis cadeiriau, byrddau, ac ardal ffau fwaog glyd sy'n darparu man tawel i'r plant ddarllen neu ymlacio. Mae'r staff yn darparu adnoddau naturiol i hybu chwilfrydedd y plant a'u hannog i fod yn chwilfrydig gyda llawer o eitemau cartref go iawn a rhannau rhydd i arbrofi â nhw. Mae'r staff yn darparu rhai cyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth ddiwylliannol trwy lyfrau, doliau, offerynnau cerdd a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwyliau fel Diwali yn ogystal â gweithgareddau i ddatblygu dealltwriaeth o dreftadaeth Gymreig.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |
|---|---|

Mae'r arweinwyr yn wybodus a gweithgar ac mae ganddynt weledigaeth, y maent yn ei rhannu ag eraill. Roedd angen rhai diwygiadau i'r datganiad o ddiben a gwblhawyd cyn i'r adroddiad gael ei ysgrifennu. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu'r lleoliad yn gywir ac yn rhoi digon o wybodaeth i rieni wneud dewis gwybodus ynghylch a ddylent ddewis y lleoliad hwn i'w plant eu hunain ei fynychu. Mae'r arweinwyr yn mynd ati i annog eu timau i gyflawni arfer orau cyfredol ac maent yn sicrhau bod yr holl reoliadau perthnasol a Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu dilyn. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu dilyn a'u hadolygu'n effeithiol. Fodd bynnag, nid oes dyddiad ar rai ohonynt, mae rhai yn cynnwys AGGCC yn hytrach nag AGC ac nid yw'r arweinwyr bob amser yn hysbysu AGC am newidiadau'r staff a newidiadau mewn oriau agor.

Mae'r arweinwyr yn barod i roi cynnig ar ddulliau newydd. Maent yn ceisio awgrymiadau gan eraill fel rhieni, staff a'r awdurdod lleol ac yn rhoi newid ar waith, sy'n gwella dysgu'r plant ac yn hybu eu lles. Mae'r arweinwyr wedi ysgrifennu adolygiad ansawdd gofal blynyddol gyda thargedau clir ar gyfer gwella fel defnyddio mwy o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Gwelsom ddigonedd o dystiolaeth i gefnogi datblygiad y targed hwn.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn yn gyson er mwyn diogelu'r plant. Er enghraifft, mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cedwir hyfforddiant gorfodol yn gyfredol a chofnodir yr holl wybodaeth ofynnol yn briodol. Mae hyn yn sicrhau bod y bobl fwyaf addas yn cael eu cyflogi i weithio yn y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn rhoi gweithdrefnau sefydlu da ar waith ar gyfer y staff. Cynhelir gwerthusiadau blynyddol a chynhelir goruchwyliaeth un i un bob tymor. Mae'r broses hon yn rheoli perfformiad yn effeithiol, yn cynnig cefnogaeth ac yn annog y staff i fynychu hyfforddiant amrywiol.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol. Mae'r rhieni yn siarad yn gadarnhaol am y lleoliad ac yn canmol y staff a lefel y gofal a gaiff eu plant. Mae'r arweinwyr yn hysbysu rhieni am ddiwrnod eu plentyn a'u cynnydd, trwy ffotograffau rheolaidd, a anfonir trwy lwyfan ar-lein y lleoliad yn ogystal ag adborth llafar dyddiol ar amser casglu. Mae'r arweinwyr yn mynd â'r plant ar wibdeithiau rheolaidd gan gynnwys ymweld â'r eglwys leol a theithiau cerdded gaeafol i gasglu dail gaeaf. Maent hefyd yn trefnu i ymwelwyr fynychu'r lleoliad fel yr hebryngydd croesfan a'r milfeddyg i wella dysgu'r plant am bobl sy'n ein helpu. Mae'r plant yn elwa ar fynychu lleoliad o fewn ysgol gan fod hyn yn hwyluso'r trosglwyddiad yn esmwyth i addysg amser llawn a hefyd yn galluogi arweinwyr i wneud defnydd o gyfleusterau a rennir fel yr ardal chwarae sy'n darparu cyfleoedd chwarae echddygol bras.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 Cynnwys rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r ffensys perimedr isel, yn yr asesiadau risg ysgrifenedig.

A2 Cynnig cyfleoedd chwarae'n rhydd i'r amgylchedd awyr agored yn hytrach na chael eu harwain gan drefn y lleoliad.

A3 Sicrhau bod AGC yn cael ei hysbysu'n gyson am ddigwyddiadau arwyddocaol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/04/2023